Cefindir a Nodiadau Dangosyddion Perfformiad y DU

Cefindir

Y Grŵp Llywio Dangosyddion Perfformiad sydd wedi arwain datblygiad y dangosyddion hyn. Daw aelodau'r grŵp o'r pedwar corff cyllido addysg uwch ar gyfer yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr (Cyngor Cyllido'r Alban, CCAUC, Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr); Llywodraeth Cynulliad Cymru; yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ac adrannau eraill y llywodraeth; yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA); a phrifysgolion a cholegau AU drwy'r cyrff sy'n eu cynrychioli (Prifysgolion y DU a GuildHE).

Nodiadau

Cyflwynwyd cofnod myfyrwyr AYAU newydd yn 2007/08. Er bod y wybodaeth a gesglir ar y cofnod yr un fath i bob pwrpas â honno a gasglwyd ar y cofnodion yn 2006/07 ac yn gynharach, mae cyflwyno'r cofnod newydd wedi golygu, fel y gellid disgwyl, nad yw ansawdd peth o'r data yn 2007/08 mor uchel ag yr oedd o'r blaen. Dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud unrhyw gymariaethau â dangosyddion perfformiad blynyddoedd blaenorol.

Ni chynhwysir yr Alban yn ffigurau'r DU ar gyfer y tablau a ganlyn:

- T1a, T1b, T1c (ffigurau cymdogaethau cyfranogiad-isel yn unig)
- T2a, T2b, T2c